# Y Pwyllgor Busnes

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>National Assembly for Wales |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 13 Mai 2014** | |
| Amser: | **08.30 – 08.53** | |

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Lesley Griffiths**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf am y Bil Mynediad, fel y cytunwyd ac y nodwyd yng nghofnodion yr wythnos diwethaf.

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am newidiadau i fusnes y Llywodraeth.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

3.2 Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 11 Mehefin 2014**

- Dadl ar Araith y Frenhines (120 munud)

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ynghylch Ariannu Addysg Uwch (60 munud)

- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Bil Addysg Uwch (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad, mewn egwyddor, ar 29 Ebrill, i gyfeirio Bil Addysg Uwch (Cymru) i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer ei ystyried yng Nghyfnod 1, a chytunwyd mai'r dyddiad terfyn i'r Pwyllgor adrodd ar y Bil yng Nghyfnod 1 fyddai 3 Hydref 2014, a'r dyddiad terfyn ar gyfer cwblhau trafodion y Pwyllgor yng Nghyfnod 2 fyddai 28 Tachwedd 2014.

## 5 Cyllideb

5.1 Adolygiad o Broses y Gyllideb

Ysgogwyd cais y Pwyllgor Busnes am y papur hwn gan ddigwyddiadau yn dilyn y cyfnod o ystyried y gyllideb yn yr hydref. Bwriad y papur hwn oedd cefnogi ystyriaeth y Rheolwyr Busnes ynghylch a ddylid adolygu proses bresennol y gyllideb.

Dangosodd y Rheolwyr Busnes eu cefnogaeth gyffredinol i'r cynigion yn y papur, a chytunwyd i ystyried y mater eto mewn cyfarfod yn y dyfodol, pan y byddent yn ystyried yn fanylach y cynnig i ymestyn y cyfnod sydd ar gael ar gyfer craffu ar y gyllideb gan y pwyllgorau.

## 6 Cyfarfod Llawn

6.1 Adolygiad o Gwestiynau Llafar y Cynulliad

Ym mis Ionawr 2013, ystyriodd y Pwyllgor Busnes nifer o opsiynau ar gyfer diwygio Cwestiynau Llafar y Cynulliad, o ran cyflwyno mwy o amseroldeb ac amrywiaeth i waith craffu meincwyr cefn ar waith Gweinidogion. Bwriad y papur hwn oedd rhoi cyfle i'r Rheolwyr Busnes ystyried llwyddiant neu fethiant y diwygiadau hyn, a ph'un ai a oes unrhyw ddiwygiadau eraill a allai fod yn ddymunol.

Gofynnodd y Rheolwyr Busnes am bapur pellach sy'n nodi cynigion manwl, i'w gyflwyno i'w grwpiau ar gyfer ymgynghori yn ei gylch.